Rhifyn y cloi bach

Wilia

PAPUR MISOL CYMRAEG ABERTAWE

RHIF 429 HYDREF 2020 AM DDIM!

Codi muriau – Ysgol Tirdeunaw a Chofeb Tryweryn

Ar y chwith: Mae'r gwaith wedi dechrau ar adeiladu ysgol newydd i Ysgol Tirdeunaw, ar dir Ysgol Bryn Tawe.
Ar y dde: Wal "Cofiwch Dryweryn" yn cael ei thrwsio.

COFIO HARRI WEBB (1920-1994)

Nodwyd canmlwyddiant geni'r bardd gwladgarol nodedig Harri Webb gyda seremoni pan roddwyd blodau ar ei fedd yn Eglwys y Santes Fair, Penard, Gŵyr (hanner dydd, ddydd Llun 7 Medi 2020).

Ganwyd Harri Webb yn 45 Ffordd Tŷ Coch Road, Abertawe a'i fagu yn Catherine Street ger canol y ddinas. Roedd gydag ef gysylltiadau teuluol cryf â Phenrhyn Gwyr.
Daeth yn ffigur amlwg ym Mhlaid Cymru, gan olygu papur Saesneg y mudiad, *Welsh Nation,* a sefyll yn ymgeisydd drosti yn etholaeth Pont-y-pŵl yn etholiad cyffredinol 1970.
Enillodd Harri Webb fri yn fardd yn ystod y 1960au, pan ddechreuodd y mudiad cenedlaethol gynyddu yng nghymoedd diwydiannol y De, a bu'n gyfrannwr rheolaidd i'r cylchgrawn *Poetry Wales*.
Dywedodd yr Athro Emeritws Prys Morgan fod Harri Webb wedi llwyddo ennill poblogrwydd mawr fel bardd. "Er bod ei waith yn bennaf yn Saesneg, doedd neb yn fwy o Gymro twymgalon na Harri ".
Rhoddwyd blodau ar y bedd gan Guto Ap Gwent, Kittle.
Noddwyd y seremoni gan Gymdeithas Hanes Plaid Cymru a'r Blaid yn Abertawe a Gŵyr gyda chydweithrediad caredig Ficer Plwyf y Tri Chlogwyn, y Parchedig Peter Brooks a'i chynnal yn ôl y rheolau ymbellhau cymdeithasol.
Llun: Guto Ap Gwent a'r Athro Prys Morgan wrth fedd Harri Webb ar ôl y seremoni yn eglwys y Santes Fair, Penard.

Guto Ap Gwent a'r Athro Prys Morgan wrth fedd Harri Webb ar ôl y seremoni yn eglwys y Santes Fair, Penard.

Oriau Agor Siop Tŷ Tawe

Dydd Iau, Gwener
a Sadwrn
10am - 2pm

Ar Lwybr Dial gan Alun Davies

Y Lolfa, £8.99 – Barn Cylch Trafod **Llyfrau Tŷ Tawe**

Marciau: yn amrywio rhwng 7 a 9 marc

"Wedi mwynhau'r llyfr yn fawr. Do'n i ddim eisiau ei roi i lawr."
"Mae'r patrwm yn dilyn y llyfr cyntaf yn y gyfres, sef dilyn safbwynt y prif berson ym mhob pennod."
"Ro'n i'n hoffi'r lleisiau gwahanol."
"Ar ôl dod dros y ffaith bod Taliesin, y prif gymeriad, ychydig yn anghyfrifol, mwynheais y llyfr."
"Mae'r stori'n llifo'n rhwydd iawn. Roedd cael gwybod pwy oedd y llofrudd ar y dechrau yn wahanol i'r arfer; ro'n i'n ofni y byddai'r llyfr yn ddiflas, ond mae'r awdur yn glyfar sut mae'n datblygu'r stori."
"Roedd y stori'n llai o 'whodunnit' na'r arfer, ond roedd y plot a'r cymhelliad yn cael eu datgelu drwy'r nofel, felly pam nid pwy sy'n cael y sylw."
"Nofel hawdd iawn ei darllen."
"Ro'n i'n mwynhau'r agwedd bod y nofel a'r cymeriadau wedi'u gwreiddio yn y gymuned. Braf oedd gweld pentrefi fel Capel Bangor yn cael sylw."
"Mae'n perthyn i genre 'Cardi noir', fel cyfres *Y Gwyll* a nofelau Geraint Evans ac ati."
"Mae'r llyfr yn dilyn patrwm cyfresi teledu – un llinyn yw'r llofruddiaeth, a'r llinyn arall yw'r berthynas rhwng yr heddweision."
"Mae'r berthynas rhwng Siwan a Taliesin yn



datblygu yn ystod y nofel ac mae fel petai Siwan yn ymagweddu fel chwaer hŷn neu fam iddo, mae hi eisiau iddo lwyddo."
"Hoffais y bartneriaeth rhwng Siwan a Taliesin. Dwi ddim yn siŵr beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf."
"Datblygodd y stori'n dda iawn, gyda thro yn y gynffon. Adloniant pur!"
"Doedd dim Saesneg diangen, a oedd yn beth da."
"Efallai fod y clawr yn rhy gynnil."
"Mae'n amlwg bod rhywbeth yn pwyso ar Taliesin."
"Ry'n ni'n cael gwybod bod y tad yn dipyn o fwli."
"Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at y nofel olaf yn y gyfres."

Cyfarfodydd nesaf, ar Zoom. Cysylltwch ag elin.angharad.meek@gmail.com i gael rhagor o wybodaeth.
12 Hydref *Rhwng y Silffoedd* gan Andrew Green, £8.99, Y Lolfa.
9 Tachwedd *Mefus yn y Glaw,* Mari Emlyn, £8.99, Gwasg y Bwthyn.7 Rhagfyr *Perl*, Bet Jones, £8.99, Y Lolfa.

Cip yn mynd fel mellten!

Yn dilyn cyhoeddiad Urdd Gobaith Cymru bod eu cylchgronau i gyd am ddim ac yn ddigidol am y flwyddyn ysgol newydd hon, mae'r ymateb wedi bod yn anhygoel gyda'r tanysgrifwyr yn derbyn eu cylchgronau digidol yn uniongyrchol i'w e-byst yr wythnos hon. Bydd darllenwyr cylchgrawn poblogaidd *Cip* yn cael gwledd ychwanegol o gynnwys, wrth i gylchgrawn *Mellten* ddod y rhan o *Cip*, eto am ddim. Bydd *Bore Da*, cylchgrawn ar gyfer dysgwyr Cymraeg oed cynradd hefyd yn cael ei ddosbarthu'n ddigidol yr wythnos hon, a chylchgrawn yr Urdd i ddysgwyr oed uwchradd, *IAW*, ym mis Hydref.
Bydd angen i bawb sydd am dderbyn y cylchgronau danysgrifio yn urdd.cymru/cylchgronau. Bydd y cylchgronau yn cael eu hanfon wedyn yn rhad ac ddim ar e-bost. Y gobaith yw y bydd ysgolion yn rhoi'r cylchgronau ar eu safleoedd dosbarth digidol, yn rhannu dolenni gyda rhieni a gofalwyr ac yn eu defnyddio yn eang yn y dosbarth. Bydd elfennau ee taflenni lliwio a gweithlenni yn cael eu rhoi ar y wefan hefyd er mwyn gwneud lawrlwytho ar gyfer argraffu yn haws.

Côr Tŷ Tawe yn 30 oed Sylw ar *Prynhawn Da*

Bu Helen Gibbon, arweinydd Côr Tŷ Tawe a Catrin Alun, un o'r aelodau sydd wedi bod hiraf yn y côr, ar raglen *Prynhawn Da* er mwyn rhoi ychydig o hanes y côr dros y blynyddoedd. Roedd y côr wedi paratoi rhaglen o weithgareddau a fydd bellach yn cael ei throsglwyddo i 2021.

Dangoswyd clip o'r côr yn canu yn hen stiwdios Tinopolis, yn Abertawe, yn 1993, gyda llawer o'r aelodau gwreiddiol yn canu.

Os colloch chi'r rhaglen, gallwch wylio eto drwy fynd i'r wefan. Yr eitem ar y côr yw'r un gyntaf yn y rhaglen.
https://www.s4c.cymru/clic/programme/807441772

Lluniau, o'r dde i'r chwith:
Helen Gibbon, Catrin Alun.
Y côr yn 1993.
Y stiwdio gyda'r ymbellhau cymdeithasol, Angharad Mair ac Owain Gwynedd oedd y cyflwynwyr. /

Ymgyrch Cylchoedd yn Cerdded y Mudiad Meithrin 7-14 Tachwedd 2020

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi manylion ein hymgyrch codi arian i'n Cylchoedd Meithrin a'n meithrinfeydd dydd am eleni sef Cylchoedd yn Cerdded. Yn dilyn sgil-effeithiau pandemig Covid-19 a'r rheolau ymbellhau cymdeithasol sydd mewn grym, mae'r angen am godi arian ychwanegol i'r Cylchoedd a'r meithrinfeydd dydd yn fwy nag erioed. Felly bydd ymgyrch Cylchoedd yn Cerdded yn cynnig gweithgaredd codi arian syml, effeithiol a diogel, a'r bwriad yw trefnu teithiau cerdded noddedig syml i'r plant yn y Cylchoedd (a'u teuluoedd os bydd amodau'r pandemig yn caniatáu). Bwriedir cynnal yr ymgyrch yn ystod wythnos 7-14 Tachwedd 2020.

Ffurflen Clwb Cefnogwyr Tŷ Tawe

Rhif Elusen: 514082

Hoffwn ymaelodi â Chlwb Cefnogwyr Cymdeithas Tŷ Tawe, gan gyfrannu at ddyfodol y Ganolfan a'i gwaith dros y Gymraeg.

Teitl ac Enw/au (Prif lythrennau os gwelwch yn dda):

Cyfeiriad:

Cod Post

Cyfeiriad e-bost: Rhif ffôn:

Hoffwn dderbyn newyddion am weithgareddau Cymdeithas Tŷ Tawe ☐
Hoffwn dderbyn e-gylchlythyr wythnosol Menter Iaith Abertawe, partner Tŷ Tawe ☐

Gellid dad-danysgrifio o'r uchod ar unrhyw adeg trwy gysylltu â'r Gymdeithas neu'r Fenter.

Mathau o Gefnogaeth (Yn ôl eich dewis – rydym yn ddiolchgar am bob cyfraniad)

1	2	3	4	5
£24 y flwyddyn £2 y mis	£60 y fl. £5 y mis	£120 y fl. £10 y mis	£ 240 y fl. £20 y mis	Teulu: Un o'r rhain + 50%

Os ydych yn talu treth incwm a/neu dreth enillion digonol, mae'n bosib trin eich tâl aelodaeth fel taliad Cymorth Rhodd (gweler drosodd).

Talu gyda siec

Ticiwch y blwch priodol ar y dde, ac anfonwch y ffurflen hon (a siec am y swm a ddewiswch) a'r Rhan Cymorth Rhodd (drosodd) at:

Clwb Cefnogwyr Tŷ Tawe,
Rhian Jones / Catrin Rowlands,
Llecyn Llawen,
4 Stryd Lewis,
St Thomas
Abertawe SA1 8BP.

1	£24	☐
2	£60	☐
3	£120	☐
4	£240	☐
5	Un o'r rhain + 50%	☐

Llofnod:

Mae pob cefnogwr yn derbyn gostyngiad o 10% yn Siop Tŷ Tawe (ac eithrio eitemau wedi'u gostwng) – cofiwch ddangos eich cerdyn aelodaeth wrth y cownter!
Mae pob cefnogwr hefyd yn dod yn aelod o'r Gymdeithas.

Caiff eich manylion eu cadw'n ddiogel, a'u defnyddio'n unig i gysylltu â chi am faterion yn ymwneud â Chymdeithas Tŷ Tawe.

- **Drosodd am sut i dalu trwy Archeb Banc a Ffurflen Cymorth Rhodd**
- **Bydd llenwi ffurflen Cymorth Rhodd yn gymorth mawr i Tŷ Tawe. Diolch i chi.**

SIOP TY TAWE

Llyfrau newydd yn y siop:

Andrew Green—*Rhwng y Silffoedd*

Bet Jones—*Perl*

Mari Emlyn—*Mefus yn y Glaw*

Carwyn Jones—*Not Just Politics*

Ar agor Dydd Iau, Gwener, Sadwrn
10—2

Atgyfodi'r Wennol

gan Rob Evans

Beth wnaethoch chi yn ystod y cyfnod clo? Dyna fydd ein gor-wyrion yn gofyn i ni yn y dyfodol pell. Dw i'n darllen yn y papurau bod rhai wedi sefydlu gwefannau newydd a chreu busnesau i werthu pethau maen nhw'n eu cynhyrchu yn y tŷ. Rhai wedi penderfynu dysgu iaith newydd, llawer wedi dewis dysgu Cymraeg. Diolch a phob lwc iddyn nhw. Eraill yn ail fael ar y grefft o goginio neu gerdded mwy, o fewn y rheolau wrth gwrs.

Beth dach chi wedi'i wneud?

Y peth cyntaf wnes i oedd archebu llyfrau, tua hanner dwsin. Llawer digon i fy nghadw i fynd dros y tair wythnos roedd y cyfnod yn mynd i barhau. Yr unig beth y gallaf fi ei ddweud yw, roedd y tair wythnos yna braidd yn hir!

Er fy mod i wrth fy modd yn darllen, ni allaf eistedd mewn cadair a darllen am fwy nag awr a hanner heb ddechrau pendwmpian. Beth arall allwn i ei wneud? Yn raddol ddoth y syniad i fy mhen o atgyfodi cylchlythyr i ddysgwyr roeddwn i wedi ei sefydlu tua ugain mlynedd yn ôl. Yn fy siwrne hir yn ôl at yr Iaith es i ar gwrs ysgrifennu Cymraeg creadigol yng Nghanolfan Iaith Gregynog.

Roedd y profiad yn bwysig iawn, ces i'r cyfle i siarad Cymraeg yn rheolaidd ac yn y pen draw ces i'r cyfle i fod yn diwtor. Sylweddolais fod addysgu yn ffordd effeithiol iawn er mwyn dysgu.

Yn ystod fy nghyfnod ar y cwrs roedd Gregynog yn cael warden newydd, un ddi-gymraeg ac roedd pobl yn poeni am ddyfodol y Ganolfan Iaith. Mi wnaeth rhai ohonom ni sefydlu Cyfeillion Canolfan Iaith Gregynog a chan fod gen i fusnes argraffu ar y pryd nes i sefydlu cylchlythyr o'r enw *Y Wennol*. Gan fy mod i ar gwrs ysgrifennu Cymraeg creadigol roedd llawer o bobl i gyfrannu ac roedd tiwtoriaid yn anfon gwaith eu dysgwyr ataf fi. Aeth Y *Wennol* ymlaen am ychydig o flynyddoedd tan i mi symud i fyw yn Abertawe er mwyn bod yn agosaf at fy rhieni. Efo'r dechnoleg wedi symud ymlaen roeddwn i'n teimlo'n ffyddiog fy mod i'n gallu atgyfodi'r *Wennol*.

Ychydig o fisoedd ynghynt roeddwn i wedi cyfarfod â grŵp o ddysgwyr a oedd yn cyfarfod yng Nghaffi'r Three Cliffs yn wythnosol. Gofynnais iddyn nhw a fydden nhw'n fodlon ysgrifennu erthyglau a ches i ddigon i gael y rhifyn cyntaf allan erbyn diwedd y mis. Erbyn hyn mae chwe rhifyn wedi gweld golau dydd ac mae pedwar o ddysgwyr yn cyfrannu'n gyson.

Mae'r profiad o ysgrifennu yn un gwerthfawr iawn i ddysgwyr, mae'r ffaith eu bod nhw'n treulio amser i roi eu meddyliau at ei gilydd i ysgrifennu yn datblygu eu sgiliau siarad hefyd. Mae hynny yn rhoi hyder iddyn nhw ac yn lleihau'r pwysau arnyn nhw pan maen nhw'n sgwrsio.

Mae'r profiad o roi'r cylchlythyr at ei gilydd bob mis wedi fy atgoffa i o'r safon mae dysgwyr yn gallu ei chyrraedd a'u brwdfrydedd i ddefnyddio'r iaith.

Dw i'n ail-fyw'r pleser roeddwn i'n ei gael wrth weithio ar *Y Wennol* wreiddiol.

Felly , Gymry Cymraeg neu ddysgwyr, mae'n werth darllen *Y Wennol*, byddwch yn gweld yn syth pa mor dalentog mae dysgwyr yn gallu fod. Mae croeso mawr i unrhyw gyfraniad o unrhyw lefel o ddysgu, ac mi fydda i'n hapus i ddanfon copi at unrhyw un sydd yn cysylltu â fi ar bobwennol@ntlworld.com

Gwnewch hynny rŵan, cyn i chi anghofio!

Pob hwyl—Rob Evans



Wilia Bach

yng ngofal Elin Meek

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr.

Daliwch i anfon, bydd rhifyn eto'n fuan:

wilia@hotmail.co.uk

CYMRAEG

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government